# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 18 Hydref 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(23)

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 2, 4, 8 a 9 eu grwpio. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**14.24**
**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**14.34**
**3. Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Lansio ymgynghoriad ar yr angen i gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau caniatâd rhieni ar gyfer prosesau tyllu cosmetig ar bobl ifanc**

**14.59**
**4. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Cynnydd ynghylch newid yn yr hinsawdd o ran lleihau allyriadau nwyon ty gwydr a pharatoi ar gyfer newid yn yr hinsawdd**

**15.35**
**5. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011**

**NDM4828 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Medi 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**15.48**
**Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd yn unol â Rheol Sefydlog 12.24 ond i bleidleisio arnynt ar wahân**

**6. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol) (Cymru) 2011**

**NDM4830 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**7. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Iechyd Meddwl (Asesu Defnyddwyr Blaenorol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2011**

**NDM4829 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Iechyd Meddwl (Asesu Defnyddwyr Blaenorol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2011 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2011.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**16.03**
**8. Dadl ar yr Adolygiad o Gymwysterau**

**NDM4831 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi y bydd yr Adolygiad o Gymwysterau yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod ein system cymwysterau yn ddealledig, yn cael ei gwerthfawrogi a'i bod yn bodloni anghenion ein pobl ifanc ac anghenion economi Cymru.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Rhoi ar ôl 'economi Cymru':

'ac yn benodol sicrhau mai dim ond i fyfyrwyr sydd â'r lefelau llythrennedd a rhifedd priodol y dyfernir cymwysterau'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 14 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y system gymwysterau bresennol wedi mynd yn gymhleth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 33 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder bod cwmpas yr adolygiad yn eang.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 43 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4831 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi y bydd yr Adolygiad o Gymwysterau yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod ein system cymwysterau yn ddealledig, yn cael ei gwerthfawrogi a'i bod yn bodloni anghenion ein pobl ifanc ac anghenion economi Cymru ac yn benodol sicrhau mai dim ond i fyfyrwyr sydd â'r lefelau llythrennedd a rhifedd priodol y dyfernir cymwysterau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 57 | 0 | 0 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**16.56**
**Cyfnod Pleidleisio**

**16.58**
**9. Dadl fer a ohiriwyd ers 5 Hydref 2011 - NDM4815 Dafydd Elis-Thomas: Diwygio Amodau Deiliadaeth y Sector Rhentu Preifat**

**Daeth y cyfarfod i ben am 17.07.**

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 on Dydd Mercher, 19 Hydref 2011**